Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran
# Heol Llanelli
# Trimsaran
# Cydweli
# SA17 4AG

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran yng nghanol pentref mawr Trimsaran, ger Cydweli ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Yn ystod yr arolygiad, roedd 145 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar y gofrestr, a 29 o blant o oedran meithrin llawn amser. Bu gostyngiad o tua 17% yn y niferoedd disgyblion yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r ysgol wedi ei dynodi yn ysgol 'categori A/B' o dan bolisi iaith Sir Gaerfyrddin. Er hyn, mae'r ysgol yn y ddwy flynedd olaf o newid i fod yn ysgol 'categori A'. Bellach, Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu i bob dosbarth heblaw am un dosbarth cyfrwng Saesneg ym Mlwyddyn 5 a 6, lle'r addysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sydd o dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn ôl yr ysgol, mae gan 58 o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Tua 36% o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, ffigwr sydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Sir Gaerfyrddin a Chymru gyfan.

Mae lefelau cyrhaeddiad hanner y disgyblion adeg cychwyn yn yr ysgol yn wan, gydag ond rhyw 10% yn uwch na chanolig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran yn 2011-2012 yw £3,542. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran yn safle 55 o'r 110 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- yr addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol;
- perthynas waith dda rhwng y disgyblion a'r athrawon, a'r staff cefnogi; a
- safonau lles uchel.

Fodd bynnag

- nid yw'r sylwadau ysgrifenedig ar waith y disgyblion yn rhoi sylw digonol i ddangos iddynt sut i wella.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- fod y pennaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'r uwch dim rheoli, y corff llywodraethol, y staff a'r dysgwyr i ddatblygu gweledigaeth ac amcanion cytunedig;
- cyfraniad y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol yn cyfrannu'n llawn at sustemau gwella'r ysgol; a
- bod yr ysgol yn arfarnu ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn llwyddiannus, gydag anghenion perthnasol yn cael eu blaenoriaethu'n effeithiol yn y cynlluniau gwella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau mwy o gynnydd yng ngwaith disgyblion gallu uwch;

A2 cysoni yr ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion sy'n dangos y ffordd ymlaen iddynt yn eu dysgu;

A3 sicrhau cysondeb yn safon cyflwyniad gwaith y disgyblion; a

A4 datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad y staff ategol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Er fod canlyniadau asesiadau sylfaen y disgyblion adeg cychwyn yn yr ysgol yn isel, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol.

Mae canlyniadau disgyblion yn saith oed yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion tebyg dros gyfnod. Mae safonau llafar y disgyblion wedi bod yn cynyddu dros amser ac yn cymharu'n dda gyda ysgolion tebyg ac yn genedlaethol, ond disgyn mae asesiadau athro mewn darllen ac ysgrifennu. Ac eithrio 2010, mae safonau darllen ac ysgrifennu y disgyblion wedi bod yn sylweddol is na ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Ac eithrio yn 2011, mae safonau mewn mathemateg wedi bod yn cymharu'n ffafriol gyda'r safonau mewn ysgolion tebyg dros gyfnod. Mae safonau gwyddoniaeth yn gyson yn cymharu'n ffafriol gyda'r safonau mewn ysgolion tebyg.

Mae canlyniadau disgyblion yn 11 oed yn dangos cynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf ac yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion tebyg. Er bod safonau yn y ddwy iaith wedi dangos cynnydd yn ddiweddar, mae safonau ysgrifennu yn benodol wedi bod yn disgyn. Mae safonau ysgrifennu Saesneg yn cymharu'n ffafriol gyda ysgolion tebyg ond yn is na Chymru, ac mae safonau ysgrifennu Cymraeg, ac eithrio 2009, yn gyson is na ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Dros gyfnod o amser mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na chanlyniadau ysgolion tebyg ac yn genedlaethol.

Nid yw'r safonau darllen ac ysgrifennu yn ôl asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol yn adlewyrchu safonau'r gwaith sy'n cael eu harddangos yn yr ysgol ar hyn o bryd. Gwelwyd safonau uchel yn llyfrau'r disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu ar frig yr ysgol.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda, ac mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni i'w gallu llawn yn ôl tystiolaeth a welwyd o waith disgyblion, dadansoddiad o ddata'r ysgol ac arsylwadau gwersi. Mae canlyniadau lefel 3 ar gyfer iaith a lefel 5 ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn dangos patrwm o gwymp dros dair mlynedd, a maent i gyd yn is na chanlyniadau ysgolion tebyg ac yn genedlaethol ar gyfer y lefelau uwch.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn o'u cymharu â'r merched, ac eithrio mewn ysgrifennu gyda'r bechgyn yn perfformio'n sylweddol is na'r merched.

Mewn gwersi mae disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda. Maent yn medru trafod yn aeddfed, gwrando ar farn eraill a maent yn defnyddio partneriaid dysgu yn effeithiol. Ar y cyfan, maent yn gwneud cynnydd da yn erbyn nodau'r gwersi. Mae'r disgyblion yn defnyddio medrau meddwl yn effeithiol yn y mwyafrif o wersi.

Llwydda'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau allweddol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm a maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n rhugl gan fynegi barn yn hyderus ac yn darllen gyda dealltwriaeth a mynegiant da. Mae rhan fwyaf y plant hŷn yn ysgrifennu'n annibynnol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau gan ddefnyddio ystod geirfa berthnasol a mynegiant amrywiol. Fodd bynnag, nid yw safon cyflwyniad gwaith y disgyblion yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llwyddiannus i nifer o bwrpasau megis casglu gwybodaeth a chyflwyno data. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio tabledi cyfrifiadurol yn hynod effeithiol er mwyn cyfuno medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gwyddoniaeth yn yr un gweithgareddau. Mae gweithgareddau megis astudiaeth a dadansoddiad o daith breswyl yn sicrhau bod llawer ohonynt yn datblygu sgiliau datrys problemau da.

Er fod nifer o'r disgyblion yn ddi-Gymraeg adeg dechrau yn yr ysgol, maent yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn gynnar iawn wedi dechrau yn yr ysgol ac mae'r Dimensiwn Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol. Golyga hyn fod gwybodaeth y disgyblion am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru yn dda.

Mae'r disgyblion yn y dosbarth Saesneg yn gwneud cynnydd priodol yn yr iaith Gymraeg. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyd-destunau ehangach na gwersi Cymraeg penodol, mewn gwasanaethau torfol, o gwmpas yr ysgol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**Lles: Da**

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen ei wneud i fod yn iach. Maent yn deall yn glir pa fwydydd sydd yn iach a phwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd i gadw'n iach. Teimla'r plant yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando arnynt os oes rhywbeth yn eu poeni.

Mae ymddygiad y disgyblion tuag at ei gilydd ac oedolion yn dda. Mae'r ysgol wedi gwneud llawer i wella'r ganran presenoldeb, sydd bellach yn yr 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r cyngor eco, y cyngor ysgol a'r grŵp SNAC yn helpu'r disgyblion i ddysgu sgiliau gwneud penderfyniadau a chydweithio sydd yn eu paratoi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymuned leol. Maent hefyd yn hybu'r disgyblion i feddwl am fwyta'n iach drwy sylwi ar flychau brechdanau amser cinio a chynnig opsiynau mwy iachus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder tuag at eu hunain ac eraill ac mae eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werthoedd personol a chymdeithasol yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ystod o ymweliadau y tu allan i'r ysgol, ymwelwyr i'r ysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfrannu'n sylweddol i ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu hyn. Mae'r cynllunio ar y cyd yn sicrhau fod y gwersi'n symbylus a bod dilyniant amlwg yn nysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfeiriad yn y cynlluniau at ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Llwydda'r ysgol i ddarparu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol yn dda, gan gynnwys cynlluniau ymyrraeth effeithiol ar gyfer grwpiau targed darllen ac ysgrifennu.

Mae'r ddarpariaeth yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau siarad y Gymraeg ac mae'r athrawon a'r cynorthwyon yn cynnig modelau ieithyddol da. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael sylw teilwng yng ngwaith yr ysgol a gwneir defnydd da o arddangosfa am Gymru, ble mae disgyblion yn dod â lluniau ohonynt nesaf at dirnodau gwahanol o gwmpas y wlad ac ysgrifennu pwt amdanynt. Mae ymgyrch yr ysgol i roi band arddwrn i siaradwyr Cymraeg wedi llwyddo i annog y plant i siarad fwy o Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i ddysgu am hanes, diwylliant a thraddodiadau eu hardal a'u gwlad.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o fyw'n gynaliadwy. Cynigir ystod eang o brofiadau sydd yn ysgogi'r disgyblion i wneud dewisiadau cynaliadwy ac yn eu helpu i ddeall goblygiadau gwahanol benderfyniadau. Trwy'r gweithgareddau yn yr ardal o dir natur ger yr ysgol, mae'r disgyblion wedi cael profiad da iawn o gydweithio gyda asiantaethau yn y gymuned i wella'r amgylchedd leol ac i ddeall yn well eu rôl mewn edrych ar ôl yr amgylchedd lleol. Mae'r ardal hon o ddefnydd yn hir dymor i gynnig profiadau addysg eang i'r disgyblion.

Prin yw'r sylw drwy'r ysgol i astudiaethau o ddinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn sicrhau bod cymhelliant yn uchel yn y rhan fwyaf o'r disgyblion ac maent yn dangos diddordeb yn eu dysgu.

Mae gan yr athrawon a'r staff cefnogi berthynas waith dda gyda'r disgyblion, ac mae'r athrawon yn sicrhau bod y deilliannau dysgu yn glir. Defnyddiant ystod o arddulliau addysgu ac adnoddau yn effeithiol, ac mae llawer o'r gweithgareddau yn heriol a diddorol.

Mae'r cynlluniau gwersi bwriadus a chymorth oedolion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y profiadau a gaiff y disgyblion. Rhoddir pwyslais effeithiol yn y gwersi ar ddatblygu medrau allweddol. Yn yr ychydig wersi ble mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r cwestiynu bob amser yn ddigon heriol a phen agored, ac nid yw pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r athrawon yn defnyddio asesiadau o waith disgyblion yn briodol wrth gynllunio ar gyfer gwersi dilynol, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae egwyddorion asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau. Serch hynny, nid yw'r sylwadau ysgrifenedig ar waith y disgyblion yn rhoi sylw digonol i ddangos iddynt sut i wella.

Mae gan yr ysgol systemau tracio cynnydd cynhwysfawr sy’n caniatáu i’r athrawon adnabod lefelau cyrhaeddiad disgyblion ynghyd â’r camau nesaf yn eu haddysg. Mae’r defnydd o bortffolios gwaith, a phrosesau safoni a chymedroli yr ysgol yn werthfawr, ac yn hwyluso’r broses o bennu lefelau yn llwyddiannus.

Mae’r adroddiadau ar gynnydd y disgyblion yn briodol ac mae rhieni yn cael cyfle i ymateb yn ysgrifenedig iddynt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau i annog y disgyblion i fod yn iach ac i wneud dewisiadau iach, yn cynnwys nifer o weithgareddau allgyrsiol sy’n cyfrannu’n effeithiol at hyn.  Mae’r pwyslais ar werthoedd da a pharchu eraill, yn nodwedd amlwg o’r arweiniad o fewn y dosbarth ac yn y gwasanaethau ysgol gyfan.  Trwy weithgareddau megis amser cylch, teimla’r disgyblion fod oedolion yn parchu eu teimladau ac yn gwrando arnynt.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus gyda asiantaethau allanol i gynnig gofal ac addysg gynhwysfawr i’r disgyblion.  Mae’r ysgol yn hybu Cymreictod y plant trwy nifer o weithgareddau o fewn y dosbarth ac yn allgyrsiol.  Caiff y plant gyfleoedd eang i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r Urdd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, a llwyddir i ymateb yn brydlon i bryderon.  Mae adnabyddiaeth gynnar yr ysgol o anghenion disgyblion ifanc yn gryfder.  Mae’r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o wasanaethau arbenigol megis tîm cefnogi ymddygiad, athrawon ymgynghorol a seicolegwyr addysg.

Mae’r cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn cydymffurfio â’r gofynion statudol. Maent yn cael eu harfarnu a’u diweddaru yn effeithiol a rheolaidd ac mae’r ysgol yn ymgynghori’n briodol â disgyblion a rhieni fel rhan o’r broses.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla’r disgyblion yn hapus a diogel.  Mae ethos cartrefol, cefnogol yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni a chyd-dynnu’n dda.

Mae’r disgyblion yn cael eu hannog i ddangos parch, gofal a phryder tuag at eu hunain ac eraill, ac mae ganddynt berthynas dda gyda’u cyfoedion a staff yr ysgol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i’r cwricwlwm ac mae bechgyn a merched yn cymryd rhan ymhob gweithgaredd.  Mae’r modd y mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion waeth bynnag eu cefndiroedd yn gryfder.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy hyrwyddo gwerthoedd personol a chymdeithasol yn hynod lwyddiannus.  Mae gan yr ysgol gynlluniau a pholisi effeithiol ar gyfer delio ag achosion o hiliaeth, ac mae polisi a chynllun hygyrchedd priodol yn weithredol.

Mae'r adeilad yn hen ac mewn mannau mewn cyflwr gwael. Er hyn, gwelir defnydd dychmygus o'r gwagleoedd gyda arddangosfeydd lliwgar ac ysgogol. Mae nifer da o adnoddau sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynnig ystod eang o brofiadau i'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n effeithiol gyda'r uwch dim rheoli, y corff llywodraethol, y staff a'r dysgwyr i ddatblygu gweledigaeth ac amcanion cytunedig ar gyfer yr ysgol. Adolygwyd elfennau o rôl yr uwch dim rheoli yn ddiweddar gan sicrhau ystod addas o gyfrifoldebau ymysg ei aelodau. Mae cyfarfodydd wythnosol yr uwch dim rheoli a'r staff yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn wedi sefydlu diwylliant sy'n hybu gwelliant. Caiff data ei ddadansoddi'n dda ar gyfer arfarnu perfformiad ar draws yr ysgol ac mae'r defnydd cynyddol o fas data canolog yr awdurdod lleol yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda iawn o sut mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill. Mae'r corff yn derbyn dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad ac mae'n ymwybodol o'r materion perthnasol sy'n codi ohono. Mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n llawn at drefniadau gwella'r ysgol ac maent wedi gweithio'n effeithiol iawn gyda'r pennaeth a staff eraill i ddatblygu'r cynllun strategol a'r cynllun datblygu. Mae cyfraniad y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol yn gryfder.

Mae cynlluniau datblygu'r ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi gwreiddio'n llawn yn nhrefniadaeth yr ysgol. Mae ymgorffori blaengareddau eraill megis asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl i waith dydd i ddydd yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn canolbwyntio ar safonau disgyblion. Mae'r trefniadau yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad ac yn rhoi sylw da i farn rhieni a disgyblion. Maent hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i flaengareddau lleol a chenedlaethol ac yn rhoi sylw priodol i adroddiadau yn dilyn ymweliadau gan swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi sefydlu cylch monitro sydd yn cryfhau'r trefniadau arfarnu.

Mae'r ysgol yn arfarnu ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol ac fe gaiff yr anghenion perthnasol eu blaenoriaethu'n effeithiol yn y cynlluniau gwella. Mae cynllun strategol yr ysgol yn sicrhau trosolwg effeithiol o'r cynlluniau hyn ac mae'r cynllun datblygu ysgol yn manylu'n briodol ar y trefniadau gweithredu. Mae'n cynnwys nifer hylaw o dargedau ar gyfer gwella a meini prawf addas ar gyfer mesur cynnydd yn eu herbyn. Mae hefyd yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am yr amrywiol agweddau ac yn amlinellu amserlenni penodol ar gyfer eu cwblhau. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn gweithredu blaenoriaethau gwella dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae trefniadau i rannu arfer dda o fewn yr ysgol, gan gynnwys arsylwi gwersi, yn datblygu ac mae hyn eisoes yn gwella ansawdd yr addysgu. Mae'r ysgol yn elwa o ymrwymiad nifer o athrawon a chynorthwywyr dosbarth â chymunedau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, mae ymrwymiad y dirprwy a chynorthwywraig dosbarth â chymuned dysgu yn datblygu'r cynllun 'hwb ymlaen' wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifyddeg carfan o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau gyda rhieni a gofalwyr, darparwyr addysgol eraill a'r gymuned leol. Mae llawer o'r rhieni yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol i gefnogi sgiliau darllen y disgyblion. Mae ychydig hefyd wedi cyfrannu'n dda at ddatblygu gardd yr ysgol ac agweddau eraill o'r tiroedd allanol. Mae'r cyswllt dydd i ddydd, a'r trefniadau cysylltu drwy gylchlythyr, y wefan a neges-destun yn sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth addas ac amserol am fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r cylch meithrin yn y pentref a'r ysgolion uwchradd y bydd disgyblion yn trosglwyddo iddynt. Mae ystod effeithiol o weithgareddau pontio yn hybu lles y disgyblion ac yn hwyluso elfennau o barhad yn eu gwaith a'u profiad. Mae cysylltiadau da yn bodoli â choleg lleol a darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at yr agweddau ymarferol o hyfforddi myfyrwyr. Mae'r ysgol yn elwa o'i chydweithio agos ag ysgolion eraill o fewn teuluoedd yr ysgolion uwchradd lleol, sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae ansawdd y ddarpariaeth hefyd yn elwa o bartneriaeth agos â chanolfan chwaraeon y pentref.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r holl gwricwlwm yn effeithiol ac fe wneir defnydd da o brofiad, diddordeb ac arbenigedd staff. Mae'r berthynas broffesiynol rhwng yr athrawon a chynorthwywyr dysgu yn effeithiol ac mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion datblygu proffesiynol staff yn dda. Mae'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer anghenion cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad addas yn eu lle ar gyfer y staff addysgu ond nid oes trefniadau perthnasol yn bodoli ar gyfer cynorthwywyr dysgu a staff eraill.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau priodol.

Rheolir adnoddau ariannol yn dda iawn a defnyddir gwybodaeth o adroddiadau monitro cyllidol i addasu cynlluniau gwario pan fo angen. Ceir cydbwysedd priodol rhwng cyfrifoldebau'r llywodraethwyr a'r pennaeth mewn perthynas ag awdurdodi gwariant.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2011, roedd y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru ac ychydig yn is na'r teulu o ysgolion tebyg. Mae'r ganran sy'n cyrraedd lefel 2 mewn llafaredd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ond mae'r ganran mewn darllen ac ysgrifennu yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r teulu. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mewn gwyddoniaeth mae'r cyfartaledd yn uwch na'r teulu ond yn is na Chymru.

Gwelwyd tueddiad ar i fyny yn safonau'r Gymraeg (lefel 2) o 2008 gyda'r ysgol yn codi o'r 50% isaf i'r 50% uchaf o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r canlyniadau llafar yn dangos patrwm o gynnydd dros y pum mlynedd ddiwethaf, ond oni bai am 2010, patrwm o gwymp sylweddol sydd mewn darllen ac ysgrifennu.

Eithaf gwastad yw canlyniadau mathemateg dros gyfnod o amser gyda'r canlyniadau ysgol yn dilyn patrwm cyfartaledd y teulu, heblaw am 2011 pan welwyd cwymp yn y canlyniadau i fod yn is na'r teulu a Chymru. Mae canlyniadau lefel 2 mewn gwyddoniaeth yn dueddol o ddilyn patrwm y teulu ac yn codi'n raddol. O ran y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, mae canlyniadau'r ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn is na chyfartaledd Cymru a'r teulu o ysgolion. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn yr 25% isaf mewn mathemateg, y 50% isaf mewn gwyddoniaeth ac o fewn y 50% uchaf mewn Cymraeg.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig (lefel 3 neu uwch) eleni yng nghyfnod allweddol 1 yn is na'r teulu a Chymru yn y Gymraeg. Mae canlyniadau lefel 3 yr ysgol mewn mathemateg yn uwch na'r teulu a Chymru ac yn sylweddol uwch mewn gwyddoniaeth. Er fod y tueddiad yn gyffredinol ar i lawr yn y Gymraeg (lefel 3), mae'r cyfartaledd yn agos at gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae'r tueddiad yn gyffredinol ar i fyny mewn canlyniadau mathemateg gyda chyfartaledd yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau lefel 3 gwyddoniaeth wedi codi'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau ysgrifennu'r merched a'r bechgyn gyda'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn. Mewn mathemateg, mae'r bechgyn yn perfformio'n well na'r merched wrth gyrraedd lefel 2, sy'n wahanol i'r patrwm cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae'r merched yn dueddol o gyrraedd lefel 3 yn amlach na'r bechgyn dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Mae'r ganran sy'n cyrraedd lefel 4 mewn llafaredd a darllen yn uwch na'r

cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a Chymru, ond mae'r ganran mewn ysgrifennu yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a'r teulu. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yn uwch na chanran y teulu ond yn is na chanran Cymru. Mae canlyniadau llafaredd Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru, ond mae canlyniadau darllen ac ysgrifennu Saesneg yn is na Chymru ac yn agos iawn at gyfartaledd y teulu. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ond yn is na chyfartaledd Cymru.

O ran y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, mae canlyniadau'r ysgol yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaledd y teulu, ond yn is na Chymru.

Wrth gymharu'r ysgol gydag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2010-2011 mae'r ysgol yn y 50% isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r pynciau mewn cyfuniad, ac yn y 50% uchaf ar gyfer Cymraeg.

Tueddiad amrywiol iawn sydd i'r Gymraeg dros gyfnod o bum mlynedd gyda canlyniadau yn sylweddol is na'r teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, ond eleni yn uwch na'r teulu a Chymru. Mae canlyniadau llafaredd a darllen yn dangos tueddiad cyffredinol o welliant, ond ar i lawr mae tueddiad canlyniadau ysgrifennu.

Tueddiad eithaf gwastad sydd mewn Saesneg gyda llafaredd a darllen ar i lawr tan eleni. Tueddiad tuag at i lawr sydd i ysgrifennu ers pum mlynedd. Mae canlyniadau mathemateg wedi bod yn gyson uwch na'r teulu a Chymru i fyny at eleni, ac mae'r un yn wir am fathemateg, gya'r ddau bwnc eleni yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ond yn is na Chymru.

Nid oes un disgybl wedi cyrraedd y tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5 neu uwch) yn y Gymraeg yn 2011. Mae'r canlyniadau lefel 5 ar gyfer Saesneg a mathemateg yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. Mae canlyniadau lefel 5 gwyddonaieth yn uwch na'r teulu ond yn is na Chymru. Tueddiad tuag at i lawr sydd ym mhob pwnc yn lefel 5 dros gyfnod o dair blynedd o leiaf.

O ystyried canlyniadau'r bechgyn a'r merched, mae'r bechgyn yn rhagori yn sylweddol yn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a hefyd yn y canlyniadau lefel 5 gwyddoniaeth. Mae'r merched yn rhagori yn y canlyniadau lefel 4 mathemateg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Yn gyffredinol mae'r rhieni wedi ymateb yn gadarnhaol i'r holiadur.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac yn ddiogel yn yr ysgol. Teimlant fod y plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod y staff yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Maent yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol a maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldebau, a theimlant fod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau gan yr ysgol.

Mae llawer o'r rhieni yn hapus gyda'r ysgol ar y cyfan, yn teimlo fod yr addysgu yn dda, bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu a fod yr athrawon yn trin y plant yn deg. Teimla llawer eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, a theimlant hefyd fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Maent yn credu fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Ar y cyfan mae'r ymatebion yn gadarnhaol, ond yn achos tua thraean o'r cwestiynau, mae'r canran o ymatebion cadarnhaol yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 74 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Maent bron i gyd yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu gofidio.

Mae'r rhan fwyaf yn dweud fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo fod yr ysgol yn eu dysgu i aros yn iach, a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Maent i gyd yn datgan fod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent i gyd hefyd yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un ohonynt yn teimlo fod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith.

Mae llawer ohonynt yn teimlo fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

Ar y cyfan mae'r ymatebion yn dilyn y patrwm cenedlaethol ar gyfer holiaduron disgyblion, ond gwelwyd ychydig o ymatebion llai positif nag yn genedlaethol yn y cwestiynau am ymddygiad.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mike Hayes | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Garem Jackson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sharon Owen | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.